

Cychwyn Deiseb

Mae llawer o bobl yn gallu creu newid

Mae 'lobïo' yn golygu defnyddio eich barn i geisio **perswadio** pobl i weithredu neu wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gallech chi lobïo eich cyngor cymuned i sefydlu grŵp ieuenctid, neu lobïo Aelod Senedd Cymru i newid cyfraith.

Mae cychwyn **deiseb** ar fater rydych chi'n teimlo'n angerddol amdano yn ffordd dda o wneud hyn. Deiseb yw datganiad wedi'i lofnodi gan lawer o bobl. Gallwch chi greu un ar **bapur** neu **ar-lein**. Bydd eich deiseb yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau ei newid, ac yna'n dangos rhestr o bobl sy'n cytuno. Mae deisebau'n cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau ac yn dangos bod llawer o bobl yn teimlo'n gryf am fater penodol ac eisiau creu newid.

Dyma rai awgrymiadau gwych ar gyfer cychwyn deiseb:

1. **Ydy'r mater yn effeithio ar lawer o bobl?** Ystyriwch ydych chi'n meddwl bod hwn yn fater digon mawr i lawer o bobl lofnodi. Os ydych chi'n meddwl bydd y ddeiseb yn fach, efallai bydd llythyr neu ddatganiad i'r wasg yn cael mwy o sylw ac yn fwy effeithiol.
2. **Deiseb bapur?** Gallai rhai materion cymunedol fod yn fwy addas ar gyfer deiseb bapur, er enghraifft, petaech chi am anfon deiseb at grŵp cymunedol, neu Gorff Llywodraethu neu Bennaeth eich ysgol. Os felly, gallwch chi ddefnyddio ein canllaw [a'n hesiampl o ddeiseb bapur](#). Os byddwch chi'n llunio deiseb bapur gallech chi ystyried ffordd wahanol o gasglu llofnodion, er enghraifft gallech chi drefnu stondin gyda baner i dynnu sylw, a thrafod y mater wyneb yn wyneb. Gallech chi hefyd ystyried argraffu taflenni i roi gwybod i bobl am y mater, a chynyddu ymwybyddiaeth o'ch ymgyrch.
3. **Deiseb Ar-lein?** Os byddwch chi'n meddwl bod deiseb ar-lein yn fwy addas i'ch mater chi, dewch o hyd i safle addas. Mae [Change.org](#) a [38 Degrees](#) yn safleoedd



mawr gyda llawer o nodweddion i gefnogi eich ymgyrch, neu gallwch chi greu deiseb i Senedd Cymru yn uniongyrchol ar eu [gwefan](#). Gallech chi ofyn i athro, arweinydd grŵp neu oedolyn rydych chi'n trystio am help i drefnu hyn.

4. **Beth yn union rydych chi eisiau?** Byddwch yn glir ac yn gryno am y newid yr hoffech chi ei weld, er enghraifft, yn hytrach na dweud "gwella ein cludiant cyhoeddus" gwnewch awgrymiadau fel "creu cludiant cyhoeddus rhatach a mwy cyson rhwng Aberystwyth a Thregaron, a buddsoddi mewn cerbydau mwy gwyrdd".
5. **Pam mae hyn yn bwysig?** Defnyddiwch dystiolaeth i berswadio pobl i lofnodi, er enghraifft, gallech chi ddyfynnu lefelau llygredd yn y ddinas, neu sut mae cost trafnidiaeth yn effeithio ar eich dewisiadau.
6. **Sut mae cael cefnogaeth?** Rhannwch eich deiseb yn eang ar-lein i gael cynifer o lofnodion â phosib. Gallech chi bostio'r ddeiseb i grwpiau cymunedol ar Facebook, annog eich cyfoedion i rannu'r ddeiseb, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ofyn i bobl sydd â llawer o ddilynwyr (er enghraifft pobl enwog) wneud hynny hefyd.
7. **Ble dylech chi anfon eich deiseb?** Dewch o hyd i'r lle cywir i gyflwyno'r ddeiseb; [gallwch chi ddefnyddio ein taflen ffeithiau](#) i'ch helpu gyda hyn. Bydd athro, arweinydd grŵp neu oedolyn rydych chi'n trystio hefyd yn gallu eich cefnogi i anfon eich deiseb i'r lle cywir.